Dŵr Cymru
Welsh Water

# Gwybodaeth am Daenellwyr Tân ar gyfer Penodiadau Newydd ac Amrywiadau (NAVs)

dwrcymru.com

## Tabl Cynnwys

Gwybodaeth am Daenellwyd Tân ar gyfer NAVs ....................3
1. Cyflwyniad....................3
2. Dylunio System Taenellwr Tân....................3
3. Pwysedd/Llif y Cyflenwad Dŵr....................3
4. Gwybodaeth Bellach....................3

## Rheoli Fersiynau

| Rhif y Fersiwn | Dyddiad Cyhoeddi | Addasiadau i'r cyhoeddiad blaenorol |
|---|---|---|
| Vs2.0. | 15 Mawrth 2021 | Diweddaru testun cyffredinol y cyflwyniad a chyfeiriad cyswllt y Gymdeithas Taenellwyr Preswyl |
| Vs3.0 | 18 Chwefror 2022 | Mân-ddiwygiad i'r testun ac ychwanegu'r frawddeg isod |

# Gwybodaeth am Daenellwyr Tân Domestig ar gyfer NAVs

## 1. Cyflwyniad

Ym mis Chwefror 2011, rhoddodd Llywodraeth Cymru Fesur Diogelwch Tân (Cymru) 2011 ar waith, oedd yn cyflwyno gam wrth gam y gofyniad hanfodol i osod systemau mygu tân mewn eiddo newydd neu wedi ei drosi. Ers mis Ebrill 2011, mae'r rheoliad wedi bod yn berthnasol i eiddo risg uchel fel cartrefi gofal, neuaddau preswyl newydd a neuaddau wedi eu trosi ar gyfer myfyrwyr, tai llety, rhai hostelau, ac ers Ionawr 2016, pob tŷ a fflat newydd ac sy'n cael eu trosi.

## 2. Dyluniad y System Taenellwr Tân

Rhaid i'r system taenellwr tân gael ei dylunio, ei gosod a'i phrofi yn unol â BS 9251:2014 (Systemau Taenellwr Tân ar gyfer Deiliadaethau Domestig a Phreswyl - Y Cod Ymarfer) neu BS 8458:2015 (Systemau Sefydlog i Amddiffyn Rhag Tân - Systemau Niwlo Dŵr Preswyl a Domestig - Y Cod Ymarfer ar gyfer Dylunio a Gosod).

Dylid nodi nad yw Dŵr Cymru Welsh Water (Dŵr Cymru) yn dylunio systemau taenellwyr tân domestig, yn asesu effeithlonrwydd, priodoldeb na chydymffurfiaeth systemau taenellwyr tân mewn perthynas ag unrhyw Reoliadau Rheoli Adeiladu, Safonau Prydeinig na Chodau Ymarfer.

## 3. Pwysedd/Llif y Cyflenwad Dŵr

Ni all Dŵr Cymru warantu cyflenwad dŵr na phwysedd na llif yn y system dosbarthu dŵr oherwydd amrywiaeth o amgylchiadau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth (er enghraifft, gallai pwysedd/llif isel neu sy'n is am gyfnod gael ei achosi gan alw uchel gan gwsmeriaid, byrstiau neu brif bibellau/ gwasanaethau a phibellau cyflenwi preifat sy'n gollwng).

Mae gan eiddo yn ardal Dŵr Cymru bwysedd gweithredol isaf o 1.5 bar. Mae rhwydweithiau cyflenwi dŵr yn amodol ar bwysedd gweithredol amrywiol, ac ni fydd Dŵr Cymru'n ymrwymo i ddarparu pwysedd penodol ar gyfer safle ar gyfer y NAV.

## 4. Manylion Pellach

Gallwch gael rhagor o fanylion am systemau taenellwr tân domestig/preswyl gan:

| | |
|---|---|
| BAFSA (Cymdeithas Taenellwyr Tân Awtomatig Prydain)<br>Richmond House<br>Broad Street<br>Ely<br>CB7 4AH<br>Ffôn 01353 659187<br>E-bost info@bafsa.org.uk<br>Gwe www.bafsa.org.uk | Y Gymdeithas Taenellwyr Preswyl<br>Park Court<br>Brimpton<br>RG7 4ST<br>Ffôn 0118 971 2322<br>E-bost info@firesprinklers.org.uk<br>Gwe www.firesprinklers.org.uk |